# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 24 Mai 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
8 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

### Menywod mewn Cymunedau Gwledig

**C4 Jane Davidson:** Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi'u cael â menywod mewn cymunedau gwledig a sut y bydd polisïau'n cael eu datblygu yn y dyfodol er mwyn cymryd eu hanghenion i ystyriaeth? (OAQ5245)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Mae swyddogion y Cynulliad yn bwrw ymlaen â'r ymgyrch 'Gwrando ar Fenywod' yng Nghymru ac yn cyfarfod â mudiadau benywod ledled Cymru er mwyn dynodi eu pryderon ynghylch byw a gweithio yng Nghymru.

Paratoir adroddiad ym Mehefin a bydd yn gwneud argymhellion ar gamau i'w cymryd yn y dyfodol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Arwynebedd y Fforestydd

**C5 Brian Gibbons:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i gynyddu arwynebedd y fforestydd yng Nghymru fel rhan o'n hymateb i her cynhesu byd eang? (OAQ5322)

**Christine Gwyther:** Yr ydym eisoes yn ehangu arwynebedd coetiroedd yng Nghymru. Bellach mae tua 14 y cant o'n harwynebedd tir yn tyfu coed, sydd yn uwch na chyfartaledd y DU (10.2 y cant) ac yn uwch o lawer na Lloegr (7 y cant). Mae'r arwynebedd hwn yn cynyddu o ryw 600 hectar y flwyddyn. Bydd y coetiroedd newydd hyn yn chwarae rhan wrth leihau cynhesu byd-eang, drwy amsugno carbon deuocsid o'r atmosffer a'i sefydlu'n rhan o adeiledd y pren.

Pwysicach na hynny yw rheolaeth gynaliadwy ar ein coed a'n coetiroedd presennol. Dyna pam yr ydym yn paratoi strategaeth coetiroedd i Gymru, er mwyn cyfeirio dyfodol coedwigaeth yng Nghymru fel ein bod yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r cyhoedd o'n holl goetiroedd. Mae coedwigoedd a reolir yn dda yn darparu amrediad eang o fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â chyfrannu at leihau'r carbon deuocsid sydd yn yr atmosffer, gan helpu i leihau cynhesu byd-eang. Mae defnyddio pren a geir o reolaeth gynaliadwy ar goetiroedd hefyd yn bwysig o ran rhwymo carbon am gyfnod cyn hwyed â phosibl. Gall defnyddio coed, yn hytrach na deunyddiau eraill i adeiladu, fod yn fwy ynni-effeithlon hefyd.

### Y Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

**C6 John Griffiths:** Pa bwysau y mae Christine Gwyther yn ei roi ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i geisio sicrhau bod y Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn adlewyrchu anghenion penodol Cymru yn y ffordd orau bosibl? (OAQ5340)

**Christine Gwyther:** Mae cyfrifoldeb dros y Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn perthyn yn awr i Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth y Cynulliad. Yr wyf yn ymwybodol bod

Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar y darpariaethau yn y Mesur sydd yn effeithio ar Gymru.

### Problem y Clafr ar Ddefaid

**C7 Peter Rogers:** Pa gynigion sydd gan Christine Gwyther i gynorthwyo ffermwyr gyda phroblem gynyddol y clafr ar ddefaid yng Nghymru? (OAQ5341)

**Christine Gwyther:** Mae deddfwriaeth yn bod eisoes i helpu i reoli'r clafr ar ddefaid. Mae'r Gorchymyn Clafr Defaid 1997 yn mynnu bod rhai sydd yn berchen ar ddefaid y gwelir bod y clafr arnynt yn eu trin hwy a'r holl ddefaid eraill yn y praidd mor fuan ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae triniaethau effeithiol ar gael ac mae er budd ffermwyr i fod yn wyliadwrus ac i drin preiddiau yr effeithir arnynt yn gyflym.

### Cyfraniad y Diwydiant Ffermio yng Nghymru

**C8 Janice Gregory:** A all Christine Gwyther roi braslun o gyfraniad cyffredinol y diwydiant ffermio yng Nghymru i gynnyrch mewnwladol crynswth Cymru, cyn ac ar ôl cymryd cymorthdaliadau i ystyriaeth? (OAQ5337)

**Christine Gwyther:** Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod amaethyddiaeth, yn 1998, wedi cyfrannu 1.4 y cant i'r cynnyrch mewnwladol crynswth yng Nghymru, gan gynnwys cymorthdaliadau. Os na chynhwysir cymorthdaliadau uniongyrchol, mae'r ffigur yn disgyn i 0.6 y cant. Mae'n anos mesur effaith cymorth anuniongyrchol, ond at ei gilydd amcangyfrifir bod cyfraniad cyffredinol amaethyddiaeth heb gynnwys cymorthdaliadau uniongyrchol a chymorth anuniongyrchol yn agos at 0 y cant.

### Trosi Adeiladau Fferm Segur

**C9 Phil Williams:** A yw Christine Gwyther wedi cynnal trafodaethau ynghylch rheoliadau cynllunio mewn perthynas â throsi adeiladau fferm segur? (OAQ5334)

**Christine Gwyther:** Ceir polisi cynllunio cenedlaethol ar drosi ac ailddefnyddio adeiladau gwledig yn Canllaw Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio, Adolygiad Cyntaf (Ebrill 1999). Mae'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn cynnal adolygiad o bolisïau ar hyn o bryd i annog mwy o amrywiaethu economaidd mewn ardaloedd gwledig. Mae cam cyntaf yr adolygiad hwnnw wedi dangos angen i edrych ymhellach ar effaith cynllunio ar amrywiaethu gwledig. Bydd y canfyddiadau a ddaw i'r golwg o adolygiad y Pwyllgor yn cael eu cymryd i ystyriaeth gan Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, Sue Essex, yn yr adolygiad o ganllawiau polisi cynllunio, sydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

### Sefydlu Cymru fel Amgylchedd Rhydd o Addasu Genetig

**C10 Nick Bourne:** A all Christine Gwyther roi adroddiad ar unrhyw gynnydd a wnaethpwyd o ran sefydlu Cymru fel amgylchedd sydd yn rhydd o addasu genetig? (OAQ5343)

**Christine Gwyther:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i'ch cwestiwn Cynulliad ysgrifenedig, WAQ5400, a roddwyd yn gynharach heddiw.

### Contractau ar gyfer Cig Oen o Gymru

**C11 Michael German:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi'u cynnal â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ynghylch contractau ar gyfer cig oen o Gymru? (OAQ5258)

**Christine Gwyther:** Ynghyd â chydweithwyr eraill yn y Llywodraeth yr wyf wedi cyflwyno sylwadau i'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau ei bod yn ymwybodol o ansawdd ac argaeledd cig oen o Gymru i

gyflenwi lluoedd Prydain. Mae Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyfyngedig, y mae'r Cynulliad yn ei gefnogi o dan y strategaeth amaeth-bwyd, wedi gweithio'n galed hefyd i ddarbwyllo'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gymryd mwy o gig oen o Gymru. Er hynny, mae penderfyniadau prynu gan y Weinyddiaeth yn fater iddi hi yng ngoleuni ei hanghenion gweithredol.

Fodd bynnag, yr wyf yn falch o adrodd bod y Weinyddiaeth Amddiffyn ar hyn o bryd yn prynu cig eidion a ddaw'n gyfan gwbl o Brydain ar gyfer ei phersonél a leolir yn y DU a'i bod wedi cynnig ymrwymo i flaenbryniant sylweddol o gig oen. Mae'r anawsterau a wynebir gan y diwydiant wrth sicrhau contract i gyflenwi'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn seiliedig ar bris ac argaeledd y cynnyrch rhewedig. Nid hawdd yw blaenbrisio ar bris digon isel i fodloni'r Weinyddiaeth Amddiffyn oherwydd byddai'n anodd i'r diwydiant gyflawni'r ymrwymiad hwnnw dros gyfnod estynedig ar bris is nag y gellid ei gael yn y farchnad adwerthu ffres. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gofyn am gig oen chwyth-rewedig.

Dynododd y cynllun gweithredu ar gyfer y sector cig oen ac eidion, a lansiwyd ym Mawrth 1999, fod angen i'r diwydiant gystadlu â chig oen rhewedig o Seland Newydd. Mae hyn yn cael ei hybu drwy ddatblygu'r sector prosesu gan Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyfyngedig o dan adain strategaeth amaeth-bwyd y Cynulliad Cenedlaethol o dan arweiniad y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd. Bydd Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyfyngedig yn ymgymryd ag astudiaeth ynghylch a allai'r gormodedd tymhorol yn y cyflenwad beri ei fod yn fuddiol rhewi cig oen o Gymru i gystadlu â'r cynnyrch rhewedig o Seland Newydd.

Mae tri gwaith rhewi yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol ac Awdurdod Datblygu Cymru yn barod i gefnogi cynigion datblygu hyfyw drwy ddarparu cymorth grant o dan gynlluniau fel y cynllun datblygu marchnata a byddant yn darparu grantiau pellach o dan y cynllun datblygu gwledig gan gynnwys grant prosesu a marchnata newydd a fydd ar gael yn ddiweddarach eleni. Byddai swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol yn falch o drafod a chynghori'r diwydiant mewn perthynas ag unrhyw gynigion. Fodd bynnag, byddai'r penderfyniad i fynd ymlaen ai peidio yn un masnachol. Mae trwyddedu gweithfeydd newydd yn gyfrifoldeb i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ac ni all roi anogaethau i broseswyr i sefydlu gweithfeydd rhewi pellach.

## Rhaglenni Datblygu Cynaliadwy

**C12 Ann Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i hybu rhaglenni datblygu cynaliadwy ar gyfer ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yng Nghymru? (OAQ5260)

**Christine Gwyther:** Darperir hyd at £250,000 y flwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf o gronfa datblygu'r amgylchedd er mwyn cefnogi prosiectau datblygu cynaliadwy gan bartneriaethau yn y pum ardal o harddwch naturiol eithriadol yng Nghymru. Mae trafodaethau'n digwydd gyda mudiadau perthnasol ynghylch y dulliau gorau o ddosbarthu'r arian hwn.

## Lladd-dai yng Nghymru

**C13 Janet Davies:** Sut fydd y prinder lladd-dai yng Nghymru'n effeithio ar y ddadl ynghylch olrhain a labelu cynnyrch cig? (OAQ5328)

**Christine Gwyther:** O dan gynllun sicrwydd da byw ffermydd Cymru mae'r protocol ar gyfer cig eidion o Gymru'n caniatáu lladd mewn unrhyw ladd-dy a gymeradwywyd. Nid yw hyn yn effeithio ar olrheiniadwyedd.

Yn ogystal â hynny, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig cynllun labelu cig eidion newydd. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl labelu ddangos gwlad y lladd. Bydd hyn ar lefel yr aelod wladwriaeth, felly yn achos ein cig eidion ni, pa un ai a ydyw wedi ei ladd yng Nghymru neu mewn man arall yn y DU, y DU fydd hyn. Y peth pwysig yw ein bod ac y byddwn yn gallu parhau i labelu ein cig eidion yn gig eidion o Gymru.

## Taliadau Archwilio Glanweithdra Cig

**C14 Kirsty Williams:** Pa gamau a gymerir i ysgafnhau baich ariannol y taliadau archwilio glanweithdra cig ar ladd-dai bychain? (OAQ5282)

**Christine Gwyther:** Mae cyfrifoldeb dros archwiliadau glanweithdra cig a'r taliadau cysylltiedig yn perthyn yn awr i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, a arolygir gan Jane Hutt AC.

Ar ôl adroddiad Grŵp Pooley ynghylch beichiau ar y diwydiant cig, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd bellach wedi sefydlu tasglu i ystyried dulliau amgen o leihau costau a wynebir gan weithfeydd sydd â thrwygyrch isel. Mae'r tasglu, y cynrychiolir buddiannau Cymru arno gan Mr Bob Kennard, i fod i ddarparu ei adroddiad erbyn 31 Mai.

Yr wyf yn ymwybodol o'r angen i leihau'r baich ar ladd-dai bach a chanolig eu maint, sydd â rhan bwysig i'w chwarae wrth gyflawni strategaeth amaeth-bwyd Cymru ac sydd yn helpu i ategu hyfywedd economaidd yr economi gwledig ac amaethyddol. Byddaf yn parhau i bwyso am driniaeth deg i'r sector bach a chanolig sydd dan bwysau, ac, yn wir, i holl ladd-dai Cymru.

## Y Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff

**C15 David Davies:** Pa fesurau y mae Christine Gwyther yn bwriadu'u gweithredu er mwyn rhwystro'r Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff rhag cael effaith drychinebus ar gefn gwlad Cymru? (OAQ5323) ***Trosglwyddwyd i Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.***

**Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (Sue Essex):** Mae'r gyfarwyddeb llosgi gwastraff arfaethedig bellach yn y cyfnodau negodi olaf. Fodd bynnag, ni fydd yn effeithio ar y llosgyddion presennol am bum mlynedd. Yr ydym yn ystyried dewisiadau gweithredu a fydd yn lleihau'r effaith ar losgyddion anifeiliaid bach yng nghefn gwlad Cymru, tra'n sicrhau bod amddiffyniadau amgylcheddol priodol.

## Mesur Cynnydd mewn Datblygu Cynaliadwy

**C16 Brian Hancock:** Pam na lansiwyd ymgynghoriad paralel i osod dangosyddion a thargedau penodol ar gyfer mesur cynnydd mewn perthynas â'r ddogfen datblygu cynaliadwy? (OAQ5331)

**Christine Gwyther:** Am nad ydym eto wedi cwblhau ein cynigion ymgynghorol. Fel y nododd y Prif Ysgrifennydd yn ddiweddar, gobeithiwn wneud hynny cyn hir.

## Y Trafodaethau yn Ewrop ar Olrhain Anifeiliaid

**C17 Brian Hancock:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi eu cael â'i chyfatebydd yn San Steffan ynghylch cynnydd yn y trafodaethau yn Ewrop ar olrhain anifeiliaid? (OAQ5326)

**Christine Gwyther:** Yr wyf yn cyfarfod â Gweinidogion Amaethyddiaeth eraill yn rheolaidd i drafod amrediad eang o faterion amaethyddol, gan gynnwys olrheiniadwyedd anifeiliaid. Mae swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad rheolaidd â'u cymheiriaid yn y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ynghylch pob agwedd ar ofynion yr UE mewn perthynas ag olrheiniadwyedd anifeiliaid.

## Cynnyrch sydd heb ei Addasu'n Enetig

**C18 Rhodri Glyn Thomas:** A yw Christine Gwyther wedi cael trafodaethau gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ynghylch y manteision o ran marchnata cynnyrch sydd heb ei addasu'n enetig? (OAQ5372)

**Christine Gwyther:** Nodais gwmpas y sgwrs a gefais â Michael Meacher, Gweinidog yr Amgylchedd, ar 10 Mai yn y datganiad a wneuthum ar y diwrnod hwnnw. Rhoddodd hynny grynodeb hefyd o'r trafodaethau rhwng y swyddogion. Ni fu trafodaeth ag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau mewn perthynas â manteision marchnata cynnyrch sydd heb ei addasu'n enetig gan nad yw ei chylch gwaith yn cynnwys y maes hwn. Fel y gwyddoch, yng Nghymru mae marchnata bwyd yn gyfrifoldeb i Gyfarwyddiaeth Bwyd Awdurdod Datblygu Cymru yr wyf fi a'm swyddogion mewn cysylltiad â hi'n rheolaidd.

### Defnydd Treial o Gnydau wedi'u Haddasu'n Enetig

**C19 Glyn Davies:** Pryd y bydd yn cyfarfod nesaf ag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau i drafod defnydd treial o gnydau wedi'u haddasu yn enetig yng Nghymru? (OAQ5360)

**Christine Gwyther:** Nid oes gennyf fwriad i gyfarfod â Gweinidogion Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn y dyfodol agos. Trafodais y rhaglen werthuso ar raddfa ffermydd gyda Michael Meacher ac fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad ar 10 Mai.

### Pwyllgor Trawsbynciol

**C20 Geraint Davies:** A yw'n fwriad gan Christine Gwyther wneud cais am bwyllgor trawsbynciol a allai roi sylw digonol i'r sialensau a gynhwysir yn y ddogfen datblygu cynaliadwy? (OAQ5332)

**Christine Gwyther:** Nid oes gennyf fwriad i wneud hynny ar hyn o bryd. Mae hyn yn fater y mae rhai a ymatebodd i'n hymgynghoriad wedi gwneud sylw arno, a byddaf wrth gwrs yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion yn eu cyfanrwydd.

### Ymweld â'r Comisiwn Ewropeaidd

**C21 Glyn Davies:** Pryd y mae Christine Gwyther yn bwriadu ymweld â'r Comisiwn Ewropeaidd nesaf? (OAQ5361)

**Christine Gwyther:** Byddaf yn ymweld â'r Comisiwn Ewropeaidd nesaf pan gredaf ei bod yn briodol imi wneud hynny a phan fydd ymrwymiadau swyddogol yn caniatáu. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'r Comisiwn.

### Astudiaeth Ymgynghorwyr y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol

**C22 Ieuan Wyn Jones:** A yw Christine Gwyther wedi gweld canlyniadau astudiaeth ymgynghorwyr y gwasanaeth datblygu a chynghori amaethyddol ynglŷn â hyfywedd cyflwyno cynllun ymgeiswyr newydd i ffermwyr ifanc? (OAQ5367)

**Christine Gwyther:** Nac ydwyf. Mae'r Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol wrthi'n ymgymryd â'r gwaith maes a'r paratoi ar ddata a ddisgrifir yn y papur a ystyriwyd gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 26 Ionawr. Byddaf yn cyflwyno'r adroddiad a'r argymhellion i'r Pwyllgor maes o law.

### Awdurdod dros yr Archwilwyr Glanweithdra Cig

**C23 Pauline Jarman:** A oes gan adran Christine Gwyther awdurdod dros yr archwilwyr glanweithdra cig sydd yn rheoleiddio lladd-dai Cymru? (OAQ5338)

**Christine Gwyther:** Penodir archwilwyr glanweithdra cig gan y Gwasanaeth Glanweithdra Cig. Yn weithredol o 1 Ebrill 2000, mae'r Gwasanaeth Glanweithdra Cig yn asiantaeth camau nesaf i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, a arolygir gan Jane Hutt AC.

## Diogelwch Cnydau wedi'u Haddasu'n Enetig

**C24 Peter Black:** Pa dystiolaeth all Christine Gwyther ei darparu i awgrymu bod cnydau wedi'u haddasu'n enetig yn ddiogel i'w bwydo i anifeiliaid fferm? (OAQ5249)

**Christine Gwyther:** Rheolir organebau a addaswyd yn enetig drwy amrediad o ddeddfwriaeth a rheoleiddio sydd yn deillio'n bennaf o'r UE. Mae'r fframwaith hwn yn gaeth, yn rhagofalus a chaiff ei gymhwyso'n drwyadl. Yn y DU mae cyngor pwyllgorau ac arbenigwyr annibynnol yn rhan ganolog o'r broses rheoleiddio a gwerthuso. Mae'r rhain yn drwyadl ac yn effeithiol ac yr wyf yn fodlon bod y cyngor gwyddonol o'r ansawdd uchaf a welir yn y grwpiau a'r pwyllgorau hyn ar gael i'r Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Borthiant Anifeiliaid yn cysylltu â'r pwyllgorau ymgynghorol perthnasol eraill fel y bo'n briodol ac yn darparu cyngor i'r Asiantaeth Safonau Bwyd a phedwar Gweinidog Amaethyddiaeth y DU ar ddiogelwch a defnydd porthiant anifeiliaid ac ymarferiadau porthi, gan roi pwys arbennig ar warchod iechyd pobl a chan gyfeirio at ddatblygiadau technegol newydd.

## Hyrwyddo Cynnyrch Cymreig ar y Rhyngrwyd

**C25 Peter Black:** Ym mha ffordd y mae'r Cynulliad wedi gweithredu hyd yma i hyrwyddo cynnyrch Cymreig ar y rhyngrwyd? (OAQ5250)

**Christine Gwyther:** Fel rhan o strategaeth amaeth-bwyd y Cynulliad Cenedlaethol bu Cyfarwyddiaeth Bwyd Awdurdod Datblygu Cymru yn datblygu ei strategaeth rhyngrwyd dros y chwe mis diwethaf ac mae ganddi safle peilot ar y we a lansiwyd ddiwedd Mawrth. Mae'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr, cynhyrchwyr a phrynwyr masnachol. Datblygir hyn ymhellach yn ystod 2000 gan ddefnyddio adborth o'r safle peilot a strategaeth rhyngrwyd a ddatblygwyd gyda chymorth ymgynghorwyr o safon ryngwladol ac ymgynghori â'r diwydiant ac â'r Bartneriaeth Amaeth-Bwyd. Er mwyn gwarchod y cyfeiriadau gwefan gorau ac atal 'difetha' a gweithgareddau eraill gan gystadleuwyr, mae'r Gyfarwyddiaeth Bwyd wedi cofrestru dros ddau ddwsin o enwau parthau rhyngrwyd generig sydd yn ymwneud â bwyd a chynnyrch amaethyddol o Gymru.

Mae ADC wedi bod yn cynorthwyo cwmnïau amaeth-bwyd i gael lle ar y rhyngrwyd yn unigol ers sawl blwyddyn ac mae'n cydnabod potensial y rhyngrwyd i ddarparu gwybodaeth, cyfathrebu â'r sector amaeth-bwyd ac er mwyn hwyluso masnach electronig.

## Y Gwasanaeth Glanweithdra Cig

**C26 David Lloyd:** A yw Christine Gwyther wedi derbyn cyflwyniadau diweddar gan ladd-dai bach ynghylch yr archwiliadau a wneir gan y Gwasanaeth Glanweithdra Cig, ac ynghylch eu cost? (OAQ5336)

**Christine Gwyther:** Gan fod y cyfrifoldeb dros y Gwasanaeth Glanweithdra Cig wedi ei drosglwyddo i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar 1 Ebrill eleni, mae'r unig sylwadau a dderbyniais yn cyfeirio at gau lladd-dy Mead Webber yn Swydd Henffordd. Mae goblygiadau o'r cau hwn i gynhyrchwyr da byw mewn rhannau o ganolbarth Cymru yn ogystal ag yn siroedd y gororau yn Lloegr a chyflwynais sylwadau i Nick Brown ac i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Deallaf y bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal adolygiad annibynnol o'r amgylchiadau y tu ôl i benderfyniad y perchnogion i gau'r gwaith a gobeithiaf y gellir gwrthdroi'r penderfyniad hwnnw. Edrychaf ymlaen at weld canlyniad yr adolygiad hwnnw.

## Hyrwyddo a Chyflenwi Cynhyrchion Lleol

**C27 David Lloyd:** Pa ymdrechion sydd yn cael eu gwneud i annog archfarchnadoedd lleol i hyrwyddo a chyflenwi nwyddau sydd wedi cael eu cynhyrchu yn lleol? (OAQ5374)

**Christine Gwyther:** Bûm i a'm swyddogion yn gohebu ag archfarchnadoedd a chawsom gyfarfodydd yn ystod Mai gyda rhai o'r cwmnïau mawr i drafod materion sydd yn deillio o'r argyfwng ffermio, gan

gynnwys cwestiynau prisio a meintiau elw yn y sectorau cynhyrchu llaeth, prosesu ac adwerthu ac i ystyried beth y gellir ei wneud i liniaru'r sefyllfa.

Cyflawnir gwaith yn barhaus drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, Cyfarwyddiaeth Bwyd Awdurdod Datblygu Cymru a'r Bartneriaeth Amaeth-Bwyd i hybu'r strategaeth amaeth-bwyd. Drwy Sianeli Marchnad (a elwid yn wreiddiol yn Rhaglen Cynhyrchwyr Adwerthwyr), a sefydlwyd 18 mis yn ôl, mae gan y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd ran bwysig mewn dilyn cyfleoedd gyda'r holl archfarchnadoedd yng Nghymru er mwyn hybu ac annog cyflenwi cynhyrchion a gynhyrchwyd yn lleol. Enghraifft o lwyddiant y rhaglen hon yw'r canlyniadau a sicrhaodd gyda siopau Tesco yng Nghymru wrth berswadio'r cwmni i gynyddu fwy na dwywaith y cyflenwad i'w gwsmeriaid o nwyddau a gynhyrchir yng Nghymru.

**Ceisiadau i Dreialu Cnydau wedi'u Haddasu'n Enetig**

**C28 Jocelyn Davies:** Beth yw awdurdod Christine Gwyther mewn perthynas â cheisiadau i dreialu cnydau wedi'u haddasu'n enetig yng Nghymru? (OAQ5339)

**Christine Gwyther:** Nid oes modd i'r Cynulliad osod moratoriwm cyffredinol ar gnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru. Cyfyngir ar bwerau'r Cynulliad, a rhai Llywodraeth y DU, gan rwymedigaethau rhyngwladol. Penderfynir ar ryddhau organeb a addaswyd yn enetig yn fasnachol i'r amgylchedd ar lefel yr UE cyfan ac wedi i gynnyrch gael ei gymeradwyo ledled yr UE, ni all aelod wladwriaeth ond cyfyngu neu wahardd defnyddio ac/neu werthu'r cynnyrch hwnnw dros dro os oes ganddi resymau cyfiawnadwy i ystyried bod y cynnyrch yn golygu perygl i iechyd dynol neu'r amgylchedd. Eglurwyd hyn yn y papur a gyflwynais i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 15 Rhagfyr y llynedd.

**Deunyddiau Risg Penodol**

**C29 Pauline Jarman:** A yw Christine Gwyther wedi cynnal trafodaethau â Nick Brown ynghylch ymdrechion y Comisiwn Ewropeaidd i gategoreiddio deunyddiau risg penodol? (OAQ5329)

**Christine Gwyther:** Cyfarfûm â Nick Brown yn ddiweddar i drafod amrediad o faterion o ddiddordeb cyffredin yn y sector amaethyddol gan gynnwys cynnig y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer ymdrin â deunydd risg penodol. Mae swyddogion y Cynulliad yn cadw mewn cysylltiad agos â'u cymheiriaid yn y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a rhoddir pob gwybodaeth iddynt ynghylch y negodiadau presennol oddi mewn i'r Comisiwn Ewropeaidd.

**Y Problemau sydd yn Wynebu Ffermio**

**C30 Jenny Randerson:** Pryd y cyfarfu Christine Gwyther â chynrychiolwyr o archfarchnadoedd ddiwethaf i drafod y problemau sydd yn wynebu ffermio? (OAQ5280)

**Christine Gwyther:** Bûm i a'm swyddogion yn gohebu ag archfarchnadoedd a chawsom gyfarfodydd yn ystod Mai gyda rhai o'r cwmnïau mawr i drafod materion sydd yn deillio o'r argyfwng ffermio, gan gynnwys cwestiynau prisio a meintiau elw yn y sectorau cynhyrchu llaeth, prosesu ac adwerthu ac i ystyried beth y gellir ei wneud i liniaru'r sefyllfa.

Cyflawnir gwaith yn barhaus drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, Cyfarwyddiaeth Bwyd Awdurdod Datblygu Cymru a'r Bartneriaeth Amaeth-Bwyd i hybu'r strategaeth amaeth-bwyd. Drwy Sianeli Marchnad (a elwid yn wreiddiol yn Rhaglen Cynhyrchwyr Adwerthwyr), a sefydlwyd 18 mis yn ôl, mae gan y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd ran bwysig mewn dilyn cyfleoedd gyda'r holl archfarchnadoedd yng Nghymru er mwyn hybu ac annog cyflenwi cynhyrchion a gynhyrchwyd yn lleol. Enghraifft o lwyddiant y rhaglen hon yw'r canlyniadau a sicrhaodd gyda siopau Tesco yng Nghymru wrth berswadio'r cwmni i gynyddu fwy na dwywaith y cyflenwad i'w gwsmeriaid o nwyddau a gynhyrchir yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

### Cynnal Safonau Addysgu

**C7 Cynog Dafis:** Sut fydd yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant yn sicrhau bod safonau addysgu yng Nghymru'n cael eu cynnal? (OAQ5304)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** Mae amrediad o fesurau i helpu athrawon i gyrraedd a chynnal safonau uchel; yn eu plith y mae gwaith ar fframwaith rheoli perfformiad newydd a darparu cymorth ariannol ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus.

### Addysgu o'r Safon Uchaf (Dosbarthiadau Cynradd)

**C8 Brian Hancock:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i sicrhau bod yr addysgu yn ein dosbarthiadau cynradd o'r safon uchaf? (OAQ5314)

**Rosemary Butler:** Byddaf yn parhau â'r ffocws cryf ar lythrennedd a rhifogrwydd mewn dosbarthiadau cynradd. Cyhoeddwyd arweiniad eisoes ar addysgu'r medrau hyn yn effeithiol mewn ysgolion cynradd gan eu bod yn ganolog i bob agwedd arall ar ddysgu. Bydd fy adran yn parhau i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus athrawon.

### Cyllid Ychwanegol i Athrawon dan Hyfforddiant

**C9 Michael German:** A yw Rosemary Butler wedi cynnal trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth ynghylch cael cyllid ychwanegol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru? (OAQ5264)

**Rosemary Butler:** Gwneir y grantiau hyfforddi ac addysgu a gyhoeddais ar 12 Ebrill drwy ddefnyddio pwerau a geir yn Adran 50 o'r Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986. Mae hyn yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau i dalu grantiau i hwyluso a hybu hyfforddiant athrawon. Trosglwyddwyd adran berthnasol y Ddeddf hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999. Felly nid oes rôl i'r Adran Addysg a Chyflogaeth wrth ddarparu adnoddau ar gyfer y grantiau hyn.

### Lleihau Maint Dosbarthiadau

**C10 Ann Jones:** Faint o lwyddiant y mae Rosemary Butler wedi'i gael o safbwynt lleihau maint dosbarthiadau ac a wnaiff hi ddatganiad? (OAQ5266)

**Rosemary Butler:** Bu gostyngiad yn nifer y plant mewn dosbarthiadau babanod o dros 30 o 30,734 yn Ionawr 1998 i 9,236 ym Medi 1999, gostyngiad o 70 y cant. Dylai'r dyraniad o £15.8 miliwn o grant eleni alluogi awdurdodau addysg lleol i ddileu'r holl ddosbarthiadau babanod â dros 30 o ddisgyblion sydd yn weddill erbyn Medi 2001.

Bu gostyngiad yn niferoedd y disgyblion iau mewn dosbarthiadau o dros 30 o 47,917 yn Ionawr 1999 i 45,785 ym Medi 1999 o ganlyniad i godiadau cyffredinol mewn cyllid i ysgolion drwy setliadau refeniw llywodraeth leol olynol.

Cynhelir cyfrifiad o feintiau dosbarthiadau ysgolion cynradd ym Medi, fel y gallwn fonitro cynnydd.

### Cymhelliannau Ariannol i Fyfyrwyr (Addysg Gynradd)

**C11 Kirsty Williams:** A wnaiff Rosemary Butler ailystyried ei phenderfyniad i beidio â rhoi cymhelliannau ariannol i fyfyrwyr sydd yn hyfforddi ar gyfer addysg gynradd? (OAQ5275)

**Rosemary Butler:** Mae'r grantiau hyfforddi ac addysgu a gyhoeddais ar 12 Ebrill ar gyfer y rhai sydd yn astudio ar lefel uwchradd cyrsiau Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig wedi eu crynhoi ar y meysydd lle y mae'r angen mwyaf. Mae gan Gymru gyflenwad da o athrawon cynradd, ac mae darparwyr hyfforddiant athrawon dechreuol yma wedi cyrraedd eu targedau derbyn ar gyfer eu cyrsiau cynradd yn gyson. Mewn pynciau uwchradd, mae darparwyr hyfforddiant athrawon dechreuol wedi profi anawsterau wrth gyrraedd targedau derbyn ers cryn amser. Adolygir y cynllun yn 2001-02 i fesur ei effeithiolrwydd a byddwn yn ystyried a oes angen newidiadau bryd hynny.

### Cymhelliannau i Raddedigion Ymgymryd ag Addysgu Ysgol Gynradd

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** A oes gan Rosemary Butler unrhyw gynlluniau i gyflwyno cymhelliannau i raddedigion ymgymryd ag addysgu mewn ysgolion cynradd? (OAQ5319)

**Rosemary Butler:** Adolygir y grantiau hyfforddi ac addysgu a gyhoeddais ar 12 Ebrill ar gyfer y rhai sydd yn astudio ar lefel uwchradd cyrsiau Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig yn 2001-02 er mwyn mesur eu heffeithiolrwydd a byddwn yn ystyried a oes angen newidiadau bryd hynny.

### Cofrestr Anghenion Addysgol Arbennig

**C13 Janice Gregory:** A wnaiff Rosemary Butler ddatganiad am y canllawiau presennol a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol sydd yn rhoi manylion yr amser yr argymhellir y dylai plentyn â datganiad barhau ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig? (OAQ5345)

**Rosemary Butler:** O dan Ddeddf Addysg 1996, mae awdurdodau addysg lleol yn gyfrifol am baratoi a chynnal datganiadau o anghenion addysgol arbennig ar gyfer plant y maent yn gyfrifol amdanynt. Wrth wneud hynny, mae'n ofynnol iddynt roi sylw i'r arweiniad a geir yn y cod ymarfer ar ddynodi ac asesu anghenion addysgol arbennig a ddaeth i rym ym Medi 1994. Mae copi o'r cod ymarfer yn Llyfrgell y Cynulliad.

Bydd y cyfnod o amser y mae plentyn y mae AALl yn gyfrifol amdano yn parhau i dderbyn datganiad yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr achos ac ni ragnodir hynny yn y ddeddfwriaeth neu'r arweiniad cysylltiedig. O dan y ddeddfwriaeth, mae'n ofynnol i AALlau adolygu datganiad bob blwyddyn o leiaf. Os credant, wrth gyflawni eu hadolygiad, nad oes angen bellach iddynt gynnal datganiad, maent yn rhydd i ysgrifennu at rieni'r plant gan roi rhybudd o'u penderfyniad i beidio â'i gynnal rhagor. Mewn achosion o'r fath, mae gan rieni hawl i apelio i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig annibynnol os anghytunant â phenderfyniad yr AALl.

### Swyddi Gwag i Athrawon

**C14 Pauline Jarman:** Pa drafodaethau y mae Rosemary Butler wedi'u cael gydag ysgolion ynghylch swyddi gwag i athrawon? (OAQ5299)

**Rosemary Butler:** Cefais drafodaethau â llawer o'r rhai sydd yn gysylltiedig â hyn ynghylch swyddi gwag a recriwtio athrawon. Mae cyfraddau'r swyddi gwag mewn ysgolion gwladol yng Nghymru'n isel. Adroddodd y corff adolygu athrawon ysgol yn Chwefror fod niferoedd sylweddol o ymgeiswyr ar gyfer pob swydd wag a bod ysgolion yn fodlon â'r rhai a benodwyd yn 'y mwyafrif helaeth' o achosion. Fodd bynnag, cyhoeddais gyflwyno grantiau hyfforddi ac addysgu yng Nghymru ar gyfer y rhai sydd yn astudio ar lefel uwchradd cyrsiau Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig am ein bod yn dymuno annog mwy o raddedigion a rhai gwell i ymgymryd â hyfforddiant athrawon dechreuol a mynd ymlaen wedyn i addysgu.

### Canllawiau Addysg Bersonol a Chymdeithasol i Gymru

**C15 David Davies:** Pa gynnydd a wnaethpwyd wrth ddrafftio canllawiau newydd ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol i Gymru? (OAQ5294)

**Rosemary Butler:** Cymeradwywyd y fframwaith ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn unfrydol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl dadl mewn Cyfarfod Llawn ar 19 Ionawr.

### Llywodraethwyr Ysgolion (Cymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig)

**C16 Helen Mary Jones:** Pa ganran o lywodraethwyr ysgolion sydd yn dod o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig? (OAQ5301)

**Rosemary Butler:** Ni chesglir gwybodaeth am darddiad ethnig llywodraethwyr ysgolion ar hyn o bryd. Yr wyf yn ystyried dulliau posibl o gasglu gwybodaeth o'r fath, yn y cyfrifiad ysgolion blynyddol o bosibl. Yr wyf yn awyddus i weld cynrychiolaeth briodol o gymunedau du ac ethnig ar gyrff llywodraethu ysgolion. Mae swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad â Llywodraethwyr Cymru ac AALlau ynghylch anghenion recriwtio llywodraethwyr ysgolion, a byddant yn edrych ar ffyrdd o wneud cyrff llywodraethu'n fwy cynrychioladol o'r cymunedau a wasanaethant.

### Dibynnu ar Gyfraniadau Rhieni i Gyflawni Gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol

**C17 Alun Cairns:** A yw Rosemary Butler yn disgwyl i ysgolion orfod dibynnu ar gyfraniadau rhieni er mwyn cyflawni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol? (OAQ5356)

**Rosemary Butler:** O dan Ddeddf Addysg 1996 ni ellir gofyn i'r disgybl na'i rieni ef neu hi dalu am, neu gyflenwi, unrhyw ddeunyddiau, llyfrau, offer neu gyfarpar arall i'w defnyddio mewn cysylltiad ag addysg a ddarperir yn ddi-dâl mewn ysgol wladol yn ystod oriau ysgol. Mae hynny'n berthnasol hefyd i faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus rhagnodedig y paratoir y disgybl ar ei gyfer yn yr ysgol.

### Cyflwyno Cyflogau i Athrawon dan Hyfforddiant

**C18 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Rosemary Butler ddatganiad ynghylch cyflwyno cyflogau i athrawon dan hyfforddiant? (OAQ5316)

**Rosemary Butler:** Ar 12 Ebrill cyhoeddais fanylion grantiau hyfforddi ac addysgu sydd i'w cyflwyno yng Nghymru ar gyfer y rhai sydd yn astudio ar lefel uwchradd ar gyrsiau Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig fel rhan o amrediad o fesurau i hybu recriwtio athrawon.

### Denu Athrawon o Safon Uchel

**C19 Janet Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i sicrhau bod ysgolion Cymru'n gallu denu athrawon o safon uchel i'w hystafelloedd dosbarth i'r un graddau ag ysgolion yn Lloegr? (OAQ5317)

**Rosemary Butler:** Ar 12 Ebrill cyhoeddais fanylion grantiau hyfforddi ac addysgu sydd i'w cyflwyno yng Nghymru ar gyfer y rhai sydd yn astudio ar lefel uwchradd ar gyrsiau Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig fel rhan o amrediad o fesurau i hybu recriwtio athrawon. Mae'r grantiau hyn yn elfennau ar y cyd sydd yn ceisio annog mwy o raddedigion a rhai gwell i ymgymryd â hyfforddiant athrawon dechreuol a mynd ymlaen wedyn i addysgu. Nid yw graddedigion sydd yn ymgymryd â hyfforddiant athrawon yn gorfod talu ffïoedd ychwaith. Credaf, gyda'r rhagolygon o ennill cyflogau uwch yn yr ystafell ddosbarth hefyd, y bydd hyn oll yn gynnig deniadol i'r rhai sydd yn symud o'r coleg i ddechrau gyrfa.

### Safonau mewn Ysgolion Cynradd (Anawsterau Recriwtio)

**C20 Cynog Dafis:** Sut mae Rosemary Butler yn bwriadu sicrhau na fydd anawsterau recriwtio'n bygwth safonau mewn ysgolion cynradd? (OAQ5305)

**Rosemary Butler:** Mae'r cyfraddau o swyddi gwag mewn ysgolion gwladol yng Nghymru yn parhau'n isel. Mae gan Gymru gyflenwad da o athrawon cynradd, ac mae darparwyr hyfforddiant athrawon dechreuol wedi cyrraedd eu targedau derbyn ar gyfer eu cyrsiau cynradd yn gyson.

**Hyrwyddo Strategaeth Ysgolion Gyson yng Nghefn Gwlad Cymru**

**C21 Richard Edwards:** Pa gamau mae Rosemary Butler yn eu cymryd i hyrwyddo strategaeth ysgolion sydd yn gyson yn ardaloedd cefn gwlad Cymru? (OAQ5255)

**Rosemary Butler:** Cyfrifoldeb awdurdodau addysg lleol yw gweinyddu ysgolion gwledig. Wrth ddyfarnu ynghylch darparu ysgolion, mewn ardaloedd gwledig neu drefol, rhaid i awdurdodau addysg lleol gymryd i ystyriaeth y galw am leoedd yn y dyfodol, cost-effeithiolrwydd cyffredinol y gwasanaeth addysg, gan gynnwys effaith cadw lleoedd dros ben, gallu ysgolion i ddarparu safon foddhaol o addysg ar draws y cwricwlwm ar gyfer pob grŵp oedran, y cyfle i rieni ddewis, y rhyngweithio rhwng ysgolion a'u cymunedau lleol ac amseroedd teithio. Rhaid i ymgynghori ddigwydd cyn cyhoeddi rhybuddion statudol sydd yn cynnig newidiadau yn y ddarpariaeth ysgolion. Mae'r Pwyllgor Addysg Cyn-16 ar fin dechrau ar astudiaeth o'r cyflenwad o leoedd ysgolion, ac yn ystod hynny mae'n sicr y bydd trafod ar ddyfodol ysgolion gwledig bach.

**Lleoedd i Raddedigion Hyfforddi fel Athrawon Cynradd**

**C22 Kirsty Williams:** Faint o leoedd fydd ar gael ym mlwyddyn addysgol 2000-01 yng Nghymru i raddedigion hyfforddi fel athrawon cynradd? (OAQ5274)

**Rosemary Butler:** Bydd 495.

**Arolygiadau Ysgolion (Straen Athrawon)**

**C23 Mick Bates:** A yw Rosemary Butler wedi trafod lefelau straen athrawon yn ystod arolygiadau ysgolion gyda mudiadau athrawon? (OAQ5276)

**Rosemary Butler:** Yr wyf yn trafod materion sydd yn ymwneud ag arolygiadau ysgolion gyda'r mudiadau athrawon o bryd i'w gilydd. Nid wyf wedi cynnal trafodaethau ar y mater hwn yn benodol.

**Llinell Gymorth Gofal Plant Genedlaethol**

**C24 Janet Ryder:** A wnaiff Rosemary Butler ddatganiad ar unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â chael llinell gymorth gofal plant genedlaethol yng Nghymru? (OAQ5298)

**Rosemary Butler:** Cynhaliwyd cyfarfod ar 2 Mai rhwng swyddogion y Cynulliad, Choices in Childcare, Chwarae Teg, Plant yng Nghymru a chanolfan gwybodaeth plant Wrecsam i drafod datblygu gwasanaethau gwybodaeth plant yng Nghymru. Mae'r posibiliad o ddatblygu llinell gymorth genedlaethol yn cael ei ystyried yng ngoleuni'r trafodaethau hyn.

**Anghenion Adnoddau Ychwanegol Ysgolion Dwyieithog**

**C25 Jane Davidson:** Pa drafodaethau mae Rosemary Butler wedi'u cynnal gydag awdurdodau lleol ynghylch yr angen i gydnabod anghenion adnoddau ychwanegol ysgolion dwyieithog yn y fformwla ariannu? (OAQ5251)

**Rosemary Butler:** Gan Peter Law y mae'r cyfrifoldeb am gyllid llywodraeth leol ac adolygu'r fformwla ariannu refeniw. Gofynnwyd i weithgor y Cynulliad Cenedlaethol-llywodraeth leol sydd yn ymgymryd â'r adolygiad ystyried y 23 o argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiad Prifysgol Cymru, Abertawe ar y fformwla bresennol. Ni chyflwynwyd yr achos dros asesiad gwariant ar wahân ar gyfer ysgolion dwyieithog yn yr adroddiad hwnnw ac nid yw felly'n cael ei ystyried gan y cyd-weithgor.

## Denu Athrawon Gwyddoniaeth ac Ieithoedd

**C26 Peter Rogers:** A wnaiff Rosemary Butler roi adroddiad ar lwyddiant cynlluniau i ddenu athrawon gwyddoniaeth ac ieithoedd i ysgolion Cymru? (OAQ5352)

**Rosemary Butler:** Dechreuodd y grantiau hyfforddi ac addysgu i'r pynciau lle y mae prinder ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth i'r rhai a dderbyniwyd i hyfforddiant athrawon dechreuol ym Medi 1999. Nid yw'r myfyrwyr ar y cyrsiau hynny wedi ymgymhwyso'n athrawon a dechrau addysgu eto. Yr oedd yr estyniad i'r cynllun hwnnw i gynnwys ieithoedd tramor modern a'r Gymraeg i fod i ddechrau ym Medi 2000, ond mae'r holl gynllun wedi ei ddisodli bellach gan y grantiau hyfforddi ac addysgu newydd a gyhoeddais ar 12 Ebrill. Adolygir y cynllun newydd yn 2001-02 er mwyn mesur ei effeithiolrwydd.

## Lleihau Cymarebau Athrawon a Disgyblion mewn Ysgolion Uwchradd

**C27 David Melding:** Pa gamau mae Rosemary Butler yn eu cymryd i leihau cymarebau athrawon a disgyblion mewn ysgolion uwchradd? (OAQ5252)

**Rosemary Butler:** Dim camau uniongyrchol. Y maint dosbarth cyfartalog mewn ysgolion uwchradd gwladol yng Nghymru oedd 20.7 yn 1998-99 ac nid yw wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.

## Creu Gwasanaethau Gwybodaeth Gofal Plant Lleol

**C28 David Lloyd:** A gafwyd unrhyw ddatblygiadau o safbwynt creu gwasanaethau gwybodaeth gofal plant lleol yng Nghymru? (OAQ5296)

**Rosemary Butler:** Cynhaliwyd cyfarfod ar 2 Mai gyda Choices in Childcare, Chwarae Teg, Plant yng Nghymru a chanolfan gwybodaeth plant Wrecsam i drafod datblygu gwasanaethau gwybodaeth plant yng Nghymru. Mae'r cynigion a wnaethpwyd yn y cyfarfod hwnnw o dan ystyriaeth ar hyn o bryd.

## Adroddiad Stewart (Lleoli Mastiau Ffôn Symudol yn Agos at Ysgolion)

**C29 Lorraine Barrett:** A wnaiff Rosemary Butler amlinellu pa drafodaethau y mae wedi'u cynnal ag Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yng ngoleuni adroddiad Stewart, ac yn arbennig mewn perthynas â lleoli mastiau ffôn symudol yn agos at ysgolion? (OAQ5292)

**Rosemary Butler:** Bu trafod rhyngof ag Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a rhyngof a'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ganfyddiadau adroddiad Stewart a'i oblygiadau i'n priod gyfrifoldebau.

## Addysgu Ceiswyr Nodded

**C30 Peter Black:** Faint mae Rosemary Butler yn amcangyfrif fydd costau ychwanegol addysgu ceiswyr nodded ac a gartrefir yng Nghymru i awdurdodau addysg lleol? (OAQ5256)

**Rosemary Butler:** Ni wasgarwyd unrhyw geiswyr nodded i Gymru hyd yn hyn ac ni ddisgwylir y bydd y trefniadau gwasgaru yn gwbl weithredol tan yr hydref.

Yr wyf yn ymwybodol o bryderon awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch addysg ceiswyr nodded o oed ysgol. Rhoddais ar ddeall i'r awdurdodau hynny y cefais drafodaethau â hwy y byddaf yn barod i ystyried â hwy, pan fydd gwybodaeth fanylach ar gael, sut y gallwn ymateb orau i'w hanghenion addysgol.